

## POLISI RHEOLI YMDDYGIAD

### AMCANION

I sicrhau awyrgylch o fodlonrwydd trwy gydweithrediad, ufudd-dod a hunan-barch, yn ogystal â pharch at gyd-ddisgybl, eiddo a thaclusrwydd o fewn yr ysgol

### BWRIAD

Sefydlu parch atgyrchol rhwng athro a disgybl fel y gall un ymddiried yn llawn yn y llall.

\*\*\*\*\*

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau a dulliau Webster Stratton er mwyn sicrhau awyrgylch positif, cartrefol a chynhwysol. Rydym yn awyddus i bob plentyn deimlo'n rhan bwysig o'r dosbarth.

Mae canmoliaeth yn rhan allweddol o bob dosbarth a cynigir gwobrwyon gan aelodau staff unigol, dosbarthiadau a'r ysgol gyfan.

Ar lefel ysgol gyfan, rhoddir tystysgrif i fachgen, merch a Cymro/Cymraes yr wythnos ym mhob dosbarth cofrestru. Yr athro a/neu disgyblion y dosbarth fydd yn dynodi pwy sydd yn derbyn y tystysgrifau. Rhoddir tystysgrifau dyddiol ym mhob dosbarth a defnyddir sticeri/tocynnau llwyddiant i ganmol ac i glodfori gwaith ac ymdrech dda gan yr athrawon.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o reolau 'llond llaw' - eistedd da, llygaid ar yr athro, traed llonydd, dwylo llonydd a gwrando da.

Annogir y plant i fod ar dasg gan osgoi cyflwyniadau maith gan yr athro. Anogir cyflwyniadau drwy dasg (bwrdd gwyn bach, gwaith par, gwaith grwp, gem ayyb).

Pan yn briodol bydd aelodau staff yn anwybyddu man ymddygiadau gan ganmol ymddygiadau da gan eraill (proximal praise) a thynnu sylw drwy ofyn cwestiwn ayyb (arall gyfeirio positif).

**Pan fo disgyblion yn dechrau aflonyddu a tarfu ar eraill byddwn yn:**

Eu atgoffa o'r rheolau

Arall gyfeirio—gyrru'r plentyn ar neges er enghraifft

Rhoi rhybudd - dyma beth fydd yn digwydd os.....

(ni fyddwn yn gyrru plentyn allan o'r dosbarth heb 'oruwchwylliaeth')

Os oes digwyddiadau mwy difrifol - taro, trais tuag at eiddo, gweiddi allan yn ddigywilydd ayyb: osgoi y drefn uchod - galw am neu syth at Mr Rhys / Mrs Ireland os oes angen.

## **Gwyrdd, Oren a Coch**

Yn ystod wythnos, gall plentyn gael ei roi ar yr oren neu coch am 'gam ymddwyn' yn y dosbarth (ni fyddwn yn rhoi plant ar oren neu coch am fanion). *Disgwylir fod athrawon dosbarth yn dilyn y drefn o osod rheolau, arall gyfeirio ayyb cyn ystyried rhoi disgybl ar yr oren.*

Yr athrawon dosbarth (y person sydd yn gyfrifol am y dosbarth ar y pryd) sydd yn rhoi plentyn ar yr oren / coch— er mwyn cysondeb.

Os oes plentyn ar goch—gall y fethu amser aur (neu rhan ohono). Yr athrawon dosbarth sydd i ofalu am y plant yma yn ystod amser aur.

Bydd tlws yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd yr wythnos i'r dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen sydd gyda'r nifer lleiaf ar y coch.

Os oes unigolion ar y coch yn aml, y cam cyntaf ydi mynd yn ôl i ddechrau'r broses—gan sicrhau awyrgylch positif.

Y nod yw creu sefyllfa lle nad ydym yn gorfod rhoi plentyn ar yr oren/coch o gwbl.

O.N. Mae'n bwysig nodi na ddylid rhoi dosbarth cyfan neu grwp mawr o ddisgyblion ar y coch/oren os nad yw pob un o'r disgyblion yn haeddu y gosb.

## **Amser Chwarae**

Yn ystod amser chwarae / cinio byddwn yn 'pro-active' - yn cadw golwg ar y plant yn ofalus er mwyn rhwystro unrhyw beth rhag digwydd.

Os yw disgybl/ion yn cam ymddwyn, byddwn yn asesu'r sefyllfa ac yn cymeryd rhai o'r camau a nodir isod:

Eistedd ar gadair am 5 munud / 10 munud / amser chwarae llawn

Dim chwarae pel droed am gyfnod

Aros ar ran penodedig o'r iard/cae

Os oes achos difrifol, gofynnwn i'r aelod o staff siarad gyda'r athro dosbarth, Mr Rhys neu Mrs Ireland - neu ei yrru i mewn os oes wir angen.

## **Gwaith Dosbarth**

Os oes achosion o ddisgyblion yn methu cwblhau gwaith - ni fyddwn yn eu cadw i mewn. Byddwn yn annog y disgyblion i gwblhau y gwaith gan ddefnyddio amserydd neu gosod targed (3 cwestiwn ayyb).

Os yw hyn yn parhau byddwn yn rhybuddio'r disgybl ac os oes angen, yn ei gyfeirio at y Pennaeth.

Byddwn yn cysylltu a'r rhieni er mwyn trafod y ffordd ymlaen.

## Gwaharddiadau

Os yw ymddygiad anfoddfaol yn parhau neu os oes digwyddiad difrifol yn digwydd byddwn yn ystyried cymeryd y camau canlynol:

Ynysu y disgybl/ion o amseroedd anstrwythuredig penodol (amser chwarae, amser cinio ayyb) neu o wersi/gweithgareddau penodol.

Gwahardd y disgybl/ion o dir yr ysgol yn ystod amser chwarae / cinio (os yn briodol)

Gwaharddiad tymor byr o'r ysgol (un neu ddau ddiwrnod)

Gwaharddiad hir dymor o'r ysgol (rhwng dau a pum diwrnod)

Gwaharddiad parhaol o'r ysgol (wedi cyfanswm o 45 diwrnod o waharddiadau)

Bydd yr ysgol yn ymateb i bob ddigwyddiad yn unigol gan ystyried y ffactorau a'r cefndir ond gall disgybl gael ei wahardd am:

ddwyn o'r ysgol neu gan eraill,  
malu eiddo yr ysgol neu eiddo pobl eraill,  
ymosod ar ddisgybl arall,  
bwlio disgybl arall,  
rhegi ar aelod o staff,  
ymosod ar aelod o staff.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_